


Astudio meddygaeth yn ddwyieithog



Contents

Astudio meddygaeth yn ddwyieithog	4
Sut ydw i'n gwneud cais i astudio meddygaeth?	4
Ydych chi wedi ystyried astudio meddygaeth drwy gyfrwng y Gymraeg?	5
Acknowledgements	6

Astudio meddygaeth yn ddwyieithog

A oes gennych ddiddordeb mewn astudio meddygaeth yn y Brifysgol? Os felly, mae'r uned hon i chi. Mae'n cyflwyno nifer o ffactorau yr ydych angen eu hystyried wrth wneud cais i astudio meddygaeth, ac yn amlinellu rhai o'r manteision o astudio meddygaeth yn ddwyieithog yn y Brifysgol.

Sut ydw i'n gwneud cais i astudio meddygaeth?

Video content is not available in this format.



Mae sawl llwybr i astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Caerdydd yw'r unig brifysgol lle gallwch astudio meddygaethyn ddwyieithog ar lefel israddedig. Gallwch hefyd wneud cais i astudio meddygaeth i raddedigion ym Mhrifysgol Abertawe lle cynigir rhyw faint o'r ddarpariaeth yn ddwyieithog. Gallwch...

- Wneud cais yn syth o Lefel A
- Wneud cais gyda gradd arall
- Ddechrau gyda gradd borthi, e.e. gwyddorau biofeddygol

Peidiwch â rhoi'r gorau iddi os nad yw'r cymwysterau TGAU angenrheidiol gennych - gydag ychydig o ddyfalbarhad gallwch wireddu eich breuddwyd o astudio meddygaeth. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion academiaidd er mwyn cael mynediad, gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar-lein neu cysylltwch ag Ysgol Feddygaeth Caerdydd ar medadmissions@cardiff.ac.uk i gael sgwrs am eich sefyllfa. Byddwch yn cael eich derbyn i astudio meddygaeth ar sail tri sgôr:

- Cymwysterau academiaidd
- Cymwysterau nad ydynt yn rhai academiaidd
- Cyfweiliad

Rhoddir ystyriaeth i achosion eithriadol ar sail achos wrth achos.

Yn ogystal â'r cymwysterau academiaidd angenrheidiol, asesir ymgeiswyr yn ôl nifer o feini prawf eraill nad ydynt yn rhai academiaidd. Bydd angen i chi fedru dangos i'r detholwyr fod gennych:

- Ddealltwriaeth o feddygaeth fel gyrfa, e.e. drwy brofiad gwaith
- Agwedd ofalgar a synnwyr o ymwybyddiaeth gymdeithasol, e.e. drwy waith gwirfoddol mewn hosbis
- Synnwyr o gyfrifoldeb, e.e. drwy rôl megis capten tîm neu bennaeth cymdeithas
- Agwedd gytbwys tuag at fywyd, e.e. bod â diddordebau ar wahân i'ch astudiaethau
- Tystiolaeth o ddysgu annibynnol, e.e. Ymchwiliad Unigol y Fagloriaeth
- Sgiliau gweithio mewn tîm, e.e. drwy fod yn aelod o glwb

Y peth pwysig yw'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu drwy'r profiadau hyn, a'r gallu i fynegi mewn geiriau'r hyn sydd wedi eich ysgogi i ddilyn gyrfa mewn meddygaeth.

Ydych chi wedi ystyried astudio meddygaeth drwy gyfrwng y Gymraeg?

Wyddoch chi eich bod yn gallu astudio meddygaeth yn ddwyieithog yng Nghaerdydd? Dyma pam y dylech chi efallai ystyried hynny...

Video content is not available in this format.



Rydym angen mwy o ddoctoriaid sy'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg gyda chleifion. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl a'u canlyniadau. Mae'r fframwaith strategol 'Mwy na geiriau' yn cydnabod mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y gall rhai pobl gyfathrebu a chyfranogi yn eu gofal fel partneriaid cyfartal. Felly


mae gan GIG Cymru gyfrifoldeb i fodloni anghenion ieithyddol pobl a drwy wneud hyn yn unig y gallent ddarparu gwasanaeth sydd yn ddiogel ac yn effeithiol.

Yn ychwanegol, mae papur ymgynghori Llywodraeth Cymru 'Miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050' yn amlinellu uchelgais i greu Cymru sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Gymraeg, ac i gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu'r iaith ac yn gallu ei defnyddio gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Y nod yw creu amodau lle gall pawb yng Nghymru gael mynediad at yr iaith Gymraeg, ac y gall pob siaradwr, er gwaethaf eu gallu, ddewis defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg. Yn ogystal â derbyn anogaeth a chymorth i ddatblygu eu sgiliau ymhellach os ydynt yn dymuno gwneud hynny, mewn amgylchedd cynhwysol a chadarnhaol.

Mae myfyrwyr sydd yn astudio yn ddwyieithog hefyd yn dweud eu bod yn fwy hyderus yn cyfrannu mewn grwpiau yn Gymraeg ac yn adrodd lefelau uwch o fodlonrwydd yn ôl data'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu annibynnol.

Ein nod yw cynhyrchu graddedigion sy'n gallu gweithio'n hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Beth am edrych ar y fideo isod i glywed am brofiad myfyriwr o astudio meddyaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Video content is not available in this format.



Acknowledgements

Diolch i Dr Awen Iorwerth, a Manon Thomas am gynorthwyo gyda'r modiwl hwn.

Mae'r Brifysgol Agored wedi gweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu unedau dwyieithog, gan gynnwys yr uned hon, ar OpenLearn Cymru:

www.colegcymraeg.ac.uk

Rhoddir cydnabyddiaeth diolchgar i'r ffynonellau canlynol:

Lluniau

Gwneir pob ymdrech i gysylltu â dalwyr hawlfraint. Os fydd unrhyw un ohonynt heb gael eu sylwi ar ddamwain bydd y cyhoeddwy yn hapus i wneud y trefniadau bydd angen ar y cyfle cyntaf.

Ilun baner Colegymraeg

Ilun cwrs Colegymraeg